

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig

*Darparu sicrwydd a safonau cyffredin i'r systemau sy'n
cefnogi cofnodion iechyd a gofal electronig a rennir*

Fersiwn Rhif 5.0
Statws: Terfynol

Awdur: Siân Howson, IGDC
Cymeradwywr: Darren Lloyd, IGDC

Dyddiad: 04/08/2025
Dyddiad Adolygu Nesaf: 04/08/2027

Pencadlys Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Tŷ Glan-yr-Afon
21 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen
Caerdydd
CF11 9AD

<https://igdc.gig.cymru/>

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 1 o 15


Hanes y Ddogfen

Hanes Adolygu

Dyddiad	Fersiwn	Awdur	Crynodeb o'r Adolygiad
03.04.17	F1.0	S Howson / A Fletcher	Fersiwn Derfynol
23.05.17	F2.0	J Short /	Adolygiad o strwythur a mireinio adrannau yn dilyn adborth. Ymgorffori sylwadau'r Cyfarwyddwr Meddygol.
22.06.17	F2.1	R Wheeldon	Newid enw'r Gofrestr o Systemau Rhannu Gwybodaeth
16.12.19	F2.2	Andrew Fletcher (Is-grŵp Polisi IGMAG)	Adolygiad o destun safonol rheoli, adolygiad o strwythur, mireinio adrannau, diweddariadau i gyfeiriadau yn unol â GDPR
03/01/20	F3-0	Andrew Fletcher (Is-grŵp Polisi IGMAG)	Terfynol
22/02/22	F3-1	Marcus Sandberg / Andrew Fletcher	Adolygiad
13/04/2022	F4.0	Marcus Sandberg	Terfynol
11/03/2025	F4.2	Siân Howson	Adolygiad o destun safonol rheoli, mân newidiadau i'w diweddarau.
02.06.2025	F4.3	Siân Howson	Adolygiad pellach o'r testun, y cwmpas a'r cyfeiriadau gan gynnwys adlewyrchu'r DUAA
04.08.2025	F5.0	Siân Howson	Terfynol

Awdurdodiad

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn dangos eich bod yn derbyn ei chynnwys.

Enw'r Awdur: Siân Howson
Rôl: Uwch Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru


- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFFEN HON YN DDOGFFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 2 o 15

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig



Enw'r Cymeradwywr: Darren Lloyd

Rôl: Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'D. Lloyd', written over a white background within a rectangular box.

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 3 o 15

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad	5
Adran 2: Pwrpas	5
Adran 3: Rhwymedigaethau	6
Adran 4: Enghreifftiau o Fecanweithiau ar gyfer Rhannu Data Personol	7
4.1 Diogelu Data.....	7
4.2 Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin	8
Adran 5: Preifatrwydd trwy ddyluniad	8
Adran 6: Mynediad a Defnydd Priodol	8
6.1 Awdurdodi caniatâd mynediad.....	8
6.2 Telerau mynediad at gofnodion iechyd electronig a rennir	8
6.3 Mynediad yn seiliedig ar rôl	9
6.4 Dilysu defnyddwyr	9
6.5 Cofrestru a dileu mynediad defnyddwyr	9
6.6 Awdurdodi a rheoli mynediad i'r gweithlu	10
6.7 Diogelwch Amgylcheddol – amseroedd terfyn.....	10
Adran 7: Hawliau Unigol	10
7.1 Egwyddorion a negeseuon allweddol	10
7.2 Ceisiadau Hawliau Unigol (gan gynnwys Ceisiadau Mynediad i Wybodaeth)	11
7.3 Ansawdd Data	11
7.4 Gwybodaeth anghywir sy'n deillio o gofnod Meddygon Teulu Cymru (WGPR)	12
Adran 8: Archwilio a Sicrwydd	12
8.1 Rheoli hysbysiadau'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIIAS)	12
8.2 Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth.....	13
Adran 9: Rheoli Cofnodion	13
Adran 10: Parhad Busnes	14
Adran 11: Rheoli Polisiâu, Digwyddiadau a Chwynion	14
11.1 Polisiâu, gweithdrefnau ac adrodd ar ddigwyddiadau.....	14
11.2 Chwynion a Digwyddiadau	14
Adran 12: Portffolio Gwasanaeth	14
Adran 13: Cofrestru	15

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig



Adran 1: Cyflwyniad

Mae sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn datblygu cysylltiadau agosach i gyflawni gweledigaeth strategol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau iechyd a lles i bobl Cymru. Mae cyflawni'r weledigaeth iechyd a gofal integredig hon yn dibynnu ar fynediad gwell a diogel at gofnodion iechyd a gofal electronig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn; nid y clefyd, y gwasanaeth na'r sefydliad lle mae'r gofal yn cael ei ddarparu.

Mae cynnydd cynyddrannol yn cael ei wneud trwy gymysgedd o systemau, meddalwedd a chronfeydd data cenedlaethol sy'n sicrhau bod rhannau o'r cofnod ar gael mewn gwahanol leoliadau gofal. Mewn gwirionedd, mae'n debygol y bydd y cofnod cyflawn yn parhau i fod yn gyfuniad o gofnodion electronig a phapur a gedwir mewn sawl sefydliad. Mae'n debygol y bydd y dirwedd gymysg hon yn cwmpasu, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Un sefydliad yn caniatáu mynediad i un arall i'w systemau gofal iechyd. Er enghraifft, meddygon teulu yn cael mynediad at system gofal eilaidd;
- Sefydliadau lluosog yn cyfrannu at gronfa ddata a rennir. Er enghraifft, Gwasanaeth Canlyniadau ac Adroddiadau Cymru (WRRS) a Gwasanaeth Cofnodion Gofal Cymru (WCRS).

Mae tudalen we *Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig* ('Safon Rheoli') ar gael ar wefan Llywodraethu Gwybodaeth GIG Cymru i ddarparu rhagor o gefnogaeth ac arweiniad i sefydliadau ar weithredu'r Safon Rheoli. Rhaid i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru lofnodi'r safon Rheoli er mwyn defnyddio systemau cenedlaethol. Rhaid i sefydliadau eraill, fel contractwyr gofal sylfaenol (e.e. meddygon teulu) sydd angen mynediad at systemau cenedlaethol lofnodi'r Safon Rheoli hefyd.

Cyfrifoldeb Prif Weithredwr neu Brif Swyddog sefydliad yw mabwysiadu'r Safon Rheoli yn ffurfiol.

Wrth lofnodi'r datganiad, mae pob sefydliad yn cytuno i gefnogi mabwysiadu, lledaenu a gweithredu'r Safon Rheoli. Dylai'r llofnodwr fod â chyfrifoldeb cyffredinol am wybodaeth defnyddwyr gwasanaeth o fewn ei sefydliad, er enghraifft yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO), Gwarcheidwad Caldicott neu berson â swydd debyg.

Adran 2: Pwrpas

Mae'r ddogfen hon, y Safon Rheoli, yn disgrifio'r sicrwydd a'r safonau cyffredin sy'n berthnasol i'r systemau sy'n cefnogi cofnodion iechyd a gofal electronig a rennir yng Nghymru ac yn darparu'r mecanwaith y mae sefydliadau'n ymrwymo iddynt drwyddo.

Mae'r Safon Rheoli yn rhoi sicrwydd bod mesurau llywodraethu gwybodaeth a diogelwch priodol ar waith ledled Cymru. Mae'n amlinellu dull cyson ar gyfer mynediad a defnydd priodol o gofnodion iechyd a gofal electronig. Mae'r Safon Rheoli hefyd yn dangos ymrwymiad parhaus i gydweithio i fynd i'r afael â heriau diogelu data, datblygu a gweithredu safonau a meithrin diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd er mwyn darparu dull cyson unedig o lywodraethu data.

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 5 o 15

Bydd pob sefydliad yn sicrhau bod:

- y prosesu'n cael ei gynnal o fewn fframwaith cyfreithiol Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) (Rheoliad (EU) 2016/679), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), Deddf Data (Defnyddio a Mynediad) (2025), Deddf Hawliau Dynol 1998, yn unol â dyletswydd hyder y gyfraith gyffredin ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.
- Dim ond lle mae ganddo'r awdurdod cyfreithiol i wneud hynny y bydd yn rhannu gwybodaeth a lle nad oes unrhyw gyfyngiadau statudol na chyfyngiadau cyfreithiol eraill sy'n atal y rhannu rhag digwydd.

Gweler Atodiad 1 - A am ragor o wybodaeth.

Adran 3: Rhwymedigaethau

Bydd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data, dyletswydd hyder y gyfraith gyffredin a deddfwriaeth berthnasol arall. At ddiben y ddogfen hon, bydd y term 'gwybodaeth Defnyddiwr Gwasanaethau' yn cynnwys 'data personol' neu 'ddata categori arbennig' fel y'i diffinnir gan ddeddfwriaeth diogelu data.

Bydd pob sefydliad yn dangos eu cytundeb i weithio tuag at y Safon Rheoli hon drwy:

- Sicrhau bod yr ymrwymadau o dan y Safon Rheoli yn cael eu gweithredu a'u monitro drwy bolisiâu a gweithdrefnau priodol.
- Gweithredu prosesau llywodraethu gwybodaeth cadarn a safonau ansawdd data i amddiffyn y defnyddiwr gwasanaethau a sefydliadau eraill rhag amlygiad diangen i risg.
- Cytuno mai dim ond ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau y bydd gwybodaeth Defnyddwyr Gwasanaethau y ceir mynediad ati drwy amgylchedd cofnodion a rennir yn cael ei defnyddio gan ddefnyddiwr gwasanaeth.
- Bod yn agored ac yn dryloyw, gan wneud yr ymdrechion gorau, priodol a chymesur i roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaethau sut mae eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio ac â phwy y caiff ei rhannu.
- Rheoli, monitro ac archwilio gwybodaeth Defnyddwyr Gwasanaethau yn briodol gan gyfyngu mynediad i'r rhai sydd ag angen cyfreithlon neu broffesiynol i sicrhau bod gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei diogelu a bod modd ei rhannu'n hyderus.
- Rhoi gwybod i'r partion perthnasol (h.y. Sefydliadau GIG eraill, Llywodraeth Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth) pan ganfyddir torri cyfrinachedd
- Sicrhau bod cyfrifoldebau'r staff a nodir yn Atodiad 1 - C yn cael eu cynnal.
- Ymrwymo i roi hyfforddiant rheolaidd am lywodraethu gwybodaeth, defnyddio gwybodaeth a'r holl systemau a chymwysiadau gwybodaeth perthynol i'r holl staff perthnasol
- Defnyddio safonau a phrosesau cyflogaeth, cyfreithiol a phroffesiynol presennol i bennu sancsiynau priodol lle mae camddefnyddio gwybodaeth Defnyddwyr Gwasanaethau wedi'i nodi

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig



- Ymrwymo i barhau i adolygu a mireinio ein polisïau a'n gweithdrefnau diogelu data i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gydnaws â gofynion cyfreithiol ac arferion gorau sy'n esblygu.
- Llofnodi'r 'Datganiad o Dderbyn a Chymryd Rhan' a ddarperir trwy ffurflen ar-lein.

Adran 4: Enghreifftiau o Fecanweithiau ar gyfer Rhannu Data Personol

4.1 Diogelu Data

At ddibenion y Safon Rheoli hon, fel arfer bydd yr amodau canlynol o GDPR y DU yn cael eu defnyddio (bydd sail gyfreithiol ar gyfer gwasanaethau penodol wedi'i nodi yn y Portffolio Gwasanaeth):

Erthygl 6(1)(a)(c) ac (e):

- (a) *mae'r testun data wedi rhoi cydsyniad i brosesu ei ddata personol at un neu fwy o ddibenion penodol;*
- (c) *mae prosesu yn angenrheidiol i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol;*
- (e) *mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a weithredir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a ymddiriedir yn y rheolwr;*

Erthygl 9(2)(a)(h) ac (i):

- (a) *mae'r testun data wedi rhoi cydsyniad clir i brosesu'r data personol hynny at un diben penodol neu fwy;*
- (h) *mae angen prosesu at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu gallu'r gweithiwr i weithio, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar sail cyfraith yr Undeb neu'r Aelod-wladwriaeth neu gontract gyda gweithiwr iechyd proffesiynol.*

Mae angen prosesu am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis amddiffyn rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol, ar sail yr Undeb neu gyfraith Aelod-wladwriaeth sy'n darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddid y testun data, yn enwedig cyfrinachedd proffesiynol;

Gweler Atodiad 1 - B am ragor o wybodaeth.

- MEWNOL -

OS YWR DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 7 o 15

4.2 Dyletswydd Cyfrinachedd y Gyfraith Gyffredin

Rhaid ystyried rhwymedigaethau o dan ddyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin ochr yn ochr â rhai GDPR y DU a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae gwybodaeth a ddefnyddir at ddibenion gofal uniongyrchol yn dibynnu ar egwyddor caniatâd ymhlwg.

Adran 5: Preifatrwydd trwy ddyluniad

Mae gan sefydliadau'r cyfrifoldeb am sicrhau bod Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIAs) wedi'u hystyried yn llawn yn unol ag Erthyglau 35 a 36 GDPR y DU a rhannu'r rhain ar draws sefydliadau neu wasanaethau er mwyn tryloywder a chraffu, lle bo angen. Bydd hyn o bwys arbennig, lle cynhyrchir Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data lleol sy'n cynnwys cysylltu â systemau neu fynediad cenedlaethol. Dylai proses debyg fod ar waith ar gyfer Aseidiadau Risg Cwmwl. Cydnabyddir y gall Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data ac Aseidiadau Risg Cwmwl fod yn gymhleth neu'n syml eu natur, y dylai hyn fod yn gymesur â'r prosiect neu'r newid ac adlewyrchu'r risg gysylltiedig.

Adran 6: Mynediad a Defnydd Priodol

6.1 Awdurdodi caniatâd mynediad

Bydd mynediad at gofnodion a rennir yn parhau i gael ei awdurdodi ar lefel leol yn dilyn gweithdrefnau lleol ar y sail bod pwrpas cyfreithlon.

Rhaid i staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau wrth brosesu gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau, a rhaid iddynt barhau i gydymffurfio â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth gorfodol.

Gweler Atodiad 1 - C am ragor o wybodaeth.

6.2 Telerau mynediad at gofnodion iechyd electronig a rennir

Dim ond pan fo'r canlynol yn wir y dylid cael mynediad at unrhyw gofnod electronig a rennir:

- Mae cyfrifon wedi'u cysylltu ag unigolyn;
- Mae pwrpas cyfreithlon dros fynediad;
- Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'w rôl y maent yn ei chyrru.

Caiff mynediad at gofnodion iechyd defnyddwyr gwasanaethau ei gofnodi a'i archwilio yn unol â Deddfau'r DU, Codau Ymarfer a gofynion llym GIG Cymru.

Ceir hyd i wybodaeth atodol bellach ar yr adran hon yn Atodiad 1 - D.

6.3 Mynediad yn seiliedig ar rôl

Mae mynediad yn seiliedig ar rôl yn ddull o gyfyngu mynediad i systemau i ddefnyddwyr awdurdodedig. Lle mae gan systemau a chymwysiadau reolaethau mynediad sy'n seiliedig ar rolau, mae rheolwyr yn gyfrifol am ddilyn y prosesau a'r gweithdrefnau rheoli cyfrifon y cytunwyd arnynt.

Mae Rheoli Cyfrifon 3 (AC3) yn fecanwaith rheoli mynediad sy'n seiliedig ar rôl ar gyfer nifer o wasanaethau gan gynnwys System Ddemograffig Cymru. Un o egwyddorion sylfaenol AC3 yw bod sefydliadau'n rheoli mynediad eu defnyddwyr eu hunain. Mae hyn yn gofyn am sefydlu a chynnal hierarchaeth. Caiff yr hierarchaeth ei rheoli drwy strwythur 'grŵp gwaith', gyda swyddogaethau penodol (gan gynnwys caniatâd i awdurdodi defnyddwyr) yn gysylltiedig â phob gweithgor. Rhaid i bob sefydliad reoli hierarchaeth AC3 sy'n caniatáu cymeradwyo, gwrthod a rheoli gweithgorau, gan gynnwys penodi defnyddiwr priodol yn y defnyddiwr AC3 mwyaf uwch ym mhob sefydliad (a elwir yn weithgor "Gwarcheidwad Caldicott").

Rhaid i ddefnyddwyr sy'n gyfrifol am reoli mynediad defnyddwyr eraill (megis y defnyddwyr yng nghweithgorau Gwarcheidwad Caldicott, Dirprwy Caldicott neu Ddirprwy Gwasanaeth) sicrhau eu bod yn:

- Dyrannu rolau lle mae defnydd cyfreithlon;
- Gwirio hunaniaeth y defnyddiwr;
- Nodi'r rhesymau sy'n cyfiawnhau rhoi mynediad;
- Neilltuo lefel briodol o fynediad, sy'n berthnasol i ddefnydd y defnyddiwr;
- Dileu mynediad defnyddwyr lle nad oes ei angen mwyach.

Gweler Atodiad 1 - E am ragor o wybodaeth.

6.4 Dilysu defnyddwyr

Rhaid rheoli mynediad i systemau GIG Cymru gyfan drwy ddefnyddio manylion mewngofnodi unigryw ar gyfer defnyddwyr y system er mwyn iddynt gael eu hadnabod yn unigryw bob amser. Rhaid defnyddio manylion mewngofnodi NADEX GIG Cymru gyfan oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Rhaid i brosesau lleol sicrhau bod defnyddwyr y system yn ymwybodol bod yn rhaid iddynt fewngofnodi i'r system gan ddefnyddio eu manylion mewngofnodi eu hunain ac nad ydynt yn rhannu manylion mewngofnodi a chyfrineiriau defnyddwyr.

6.5 Cofrestru a dileu mynediad defnyddwyr

Rhaid datblygu gweithdrefnau a dogfennaeth safonol fel rhan o'r broses gofrestru a dileu mynediad defnyddwyr. Rhaid i bob sefydliad gael system gadarn ar gyfer rheoli prosesau cofrestru defnyddwyr, yn

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig



enwedig dechreuwyd newydd, symudwyd ac ymadawyd. Lle nad oes gan staff hawl gyfreithlon i gael mynediad i'r system mwyach, rhaid dileu mynediad ar unwaith.

Rhaid i gofrestru defnyddwyr gynnwys y gofynion canlynol o leiaf:

- Rhaid gwirio hunaniaeth;
- Rhaid cwblhau ffurflen gais defnyddiwr sydd wedi'i chwblhau'n gywir (neu ddewis arall addas) a'i hawdurdodi'n briodol cyn caniatáu neu derfynu mynediad; a
- Rhaid adolygu holl fanylion cofrestru defnyddwyr yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gywir a bod angen mynediad o hyd.

Gweler Atodiad 1 - F am ragor o wybodaeth.

6.6 Awdurdodi a rheoli mynediad i'r gweithlu

Rhaid darparu a rheoli mynediad ar lefel leol ac ar awdurdod y sefydliad sy'n cyflogi. Dim ond ar ôl sicrhau bod y mesurau diogelwch priodol wedi'u hysgrifennu yn y contract neu'r cytundeb y dylai sefydliadau ganiatáu mynediad. Rhaid i staff gwblhau lefel briodol o hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth cyn caniatáu mynediad. Mae hyn yn berthnasol i weithlu sefydliadau GIG Cymru gan gynnwys staff, myfyrwyr, hyfforddeion, secondeion, gwirfoddolwyr, trydydd partïon dan gontract ac unrhyw bersonau eraill sy'n cyflawni dyletswyddau ar ran GIG Cymru.

6.7 Diogelwch Amgylcheddol – amseroedd terfyn

Rhaid amddiffyn gorsafedd gwaith heb oruchwyliaeth rhag defnydd heb awdurdod gyda chyfleuster terfyn amser awtomatig dros gyfnod byr. Mae'r cyfrifoldeb yn parhau gyda'r defnyddiwr i gynnal cyfrinachedd cleifion, a rhaid pwysleisio'r angen i allgofnodi ar ôl defnyddio'r cyfleuster yn ystod hyfforddiant ar y rhaglen i ddefnyddwyr.

Adran 7: Hawliau Unigol

7.1 Egwyddorion a negeseuon allweddol

Mae gan ddefnyddwyr gwasanaethau hawl i gael gwybod sut mae eu gwybodaeth yn cael ei defnyddio. Mae'r cysyniad o dryloywder yn rhan bwysig o ddeddfwriaeth diogelu data a dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion perthnasol. Bydd sefydliadau'n cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau drwy amrywiol ddulliau er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl. Dyma rai enghreifftiau:

- Gwybodaeth preifatwydd;
- Poster, taflenni a deunyddiau printiedig eraill;
- Datganiadau i'r Wasg;
- Digwyddiadau newyddion - lansio ymgyrchoedd, cyfweiliadau;

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 10 o 15

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig



- Y cyfryngau cymdeithasol;
- Gwefannau

Bydd y negeseuon hyn yn cynnwys sut mae'r sefydliad yn defnyddio gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau a manteision rhannu gwybodaeth.

7.2 Ceisiadau Hawliau Unigol (gan gynnwys Ceisiadau Mynediad i Wybodaeth)

Rhaid i bob sefydliad gael polisïau a gweithdrefnau ar waith a fydd yn hwyluso prosesu hawliau unigol yn effeithiol (gan gynnwys Mynediad at Bwnc).

Mae GDPR y DU yn darparu'r hawliau canlynol i unigolion:

- Yr hawl i gael gwybod;
- Yr hawl mynediad;
- Yr hawl i gywiro;
- Yr hawl i ddileu;
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu;
- Yr hawl i gludadwyedd data;
- Yr hawl i wrthwynebu;
- Hawliau yn ymwneud â phroffilio a phenderfyniadau a wneir yn awtomatig.

Rhaid prosesu unrhyw geisiadau am hawliau unigol a dderbynnir cyn gynted â phosibl ac o leiaf o fewn yr amserlenni a nodir gan ddeddfwriaeth diogelu data, gan ystyried yr amser prydlon ond rhesymol sydd ei angen i adolygu'r wybodaeth lle bo'n briodol.

Lle mae mwy nag un sefydliad wedi cyfrannu gwybodaeth at gofnod a rennir, yna bydd y sefydliad arweiniol (h.y. y sefydliad sy'n derbyn y cais) yn:

- Gyfrifol am brosesu'r cais;
- Prosesu'r cais o fewn yr amserlen ddeddfwriaethol;
- Ymgynghori â sefydliadau eraill sydd wedi cyfrannu at y cofnod a rennir, os yw'n briodol ac yn ymarferol o ran cwmpas a chyfaint y cais.

Nid yw bob amser yn bosibl ymgynghori â phob Rheolwr os yw'r wybodaeth ar gael mewn systemau sy'n dwyn ynghyd gyfraniadau unigol a seilo o ddata o sefydliadau eraill. Felly, dylai'r Rheolwr sy'n derbyn fod â'r cyfrifoldeb datgelu ar yr holl wybodaeth a ddarperir iddynt.

7.3 Ansawdd Data

Rhaid i sefydliadau gael polisïau a gweithdrefnau lleol ar waith ar gyfer prosesu gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau ac ar gyfer gwirio cywirdeb y wybodaeth honno.

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig



Rhaid gwirio cywirdeb gwybodaeth defnyddwyr gwasanaethau pryd bynnag y bydd defnyddiwr y gwasanaeth yn cysylltu â'r gwasanaeth. Mae rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau i'w gweld yn Atodiad 1 - G.

Rhaid i sefydliadau sicrhau, lle bo modd, y bydd systemau a ddefnyddir i rannu gwybodaeth yn cysylltu â'r systemau cyfeirio demograffig cenedlaethol; Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDS) a'r Prif Fynegai Cleifion (MPI), er mwyn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hadnabod yn gywir, bod rhifau'r GIG yn gywir a bod data demograffig wedi'i gydamseru. Gweler Atodiad 1 – H am ragor o wybodaeth am y Prif Fynegai Cleifion.

7.4 Gwybodaeth anghywir sy'n deillio o gofnod Meddygon Teulu Cymru (WGPR)

Ystyrir bod cofnod y meddyg teulu yn gofnod iechyd craidd claf. Mae hefyd yn gyswllt hanfodol ag ymchwiliadau i ddigwyddiadau a chwynion honedig.

Mae'r WGPR yn deillio o gofnod y meddyg teulu ac felly, os nodir unrhyw anghywirdebau yn y WGPR rhaid adrodd hyn i'r feddygfa meddyg teulu berthnasol gan mai dim ond ar system glinigol y meddyg teulu y gellir cywiro'r rhain.

Adran 8: Archwilio a Sicrwydd

Mae archwilio mynediad defnyddwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau nad yw'r rhai sydd â mynediad at ddata defnyddwyr gwasanaethau wedi camddefnyddio'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddynt. Gall gweithgaredd archwilio ddigwydd drwy amrywiaeth o dulliau, a bydd yr un mwyaf priodol yn cael ei bennu gan amgylchiadau'r system unigol.

8.1 Rheoli hysbysiadau'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIAS)

Mae'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIAS) wedi'i gaffael i archwilio systemau cofnodion iechyd electronig a rennir yn rhagweithiol. Rhaid i bob sefydliad gael polisiau a gweithdrefnau lleol ar waith ar gyfer rheoli hysbysiadau'r Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol. Am ragor o wybodaeth am y Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol gweler y wybodaeth a'r canllawiau atodol yn Atodiad 1 – I.

Rhaid i bob sefydliad wneud penderfyniadau lleol ynghylch sut mae digwyddiadau posibl a nodwyd wrth archwilio yn cael eu hadolygu. Dylai'r adolygiad wahaniaethu rhwng camddefnydd gwirioneddol a mynediad sy'n gyfreithlon. O leiaf, rhaid i'r weithdrefn lleol gynnwys y canlynol:

- Dull cyfathrebu lleol gyda gwybodaeth am ymddygiad priodol ac amhriodol a champau dilynol sy'n deillio o ganfyddiadau camddefnydd;
- Manylion ynghylch sut y bydd achosion o gamddefnydd posibl yn cael eu dilyn ynghyd â manylion ynghylch sut y bydd pob canlyniad yn cael ei weithredu;

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig



- Canllawiau i gefnogi rheolwyr llinell, gan gynnwys senarios o gamddefnydd nodweddiadol, camau dilynol a thebygolrwydd camau disgyblu. Dylai hyn fod yn unol â dulliau lleol a ragnodedig a ddatblygwyd gyda thimau'r Gweithlu a Datblygu Sefydliad Lleol neu gyfwerth.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gellir ychwanegu ati yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad.

8.2 Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth

Mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn offeryn hunanasesu sy'n galluogi sefydliadau i fesur lefel eu cydymffurfiaeth yn erbyn safonau a deddfwriaeth Llywodraethu Gwybodaeth genedlaethol. Bydd yr asesiad yn helpu i nodi'r meysydd hynny mae angen eu gwella ac yn helpu i lywio Cynlluniau Gwella Llywodraethu Gwybodaeth sefydliadau.

Mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru wedi'i ddatblygu dros nifer o flynyddoedd, gan gwmpasu ystod eang o bynciau Llywodraethu Gwybodaeth. Mae gofynion Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru wedi'u rhannu'n ddwy lefel o sicrwydd. Mae'r lefel gyntaf yn ofynnol i gael cydymffurfiaeth a sicrwydd da yn erbyn safonau a deddfwriaeth Llywodraethu Gwybodaeth genedlaethol. Dim ond pan fydd y lefel gyntaf wedi'i chyflawni y gellir cyflawni'r ail lefel. Nid yw'r ail adran yn orfodol ac mae'n dibynnu ar y sefydliad p'un a yw am gymryd rhan yn yr adran hon ai peidio. Nodir y ddwy lefel isod:

- Disgwyliadau Lleiaf
- Mynd y Tu Hwnt i'r Disgwyliadau

Bydd Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn cynhyrchu statws cyflawniad yn awtomatig ar sail hunanasesiad y Sefydliad, sef:

- Disgwyliadau Lleiaf Heb eu Cyflawni (Sefyllfa anghydfurfiol)
- Disgwyliadau Lleiaf wedi'u Bodloni (Sefyllfa gydymffurfiol)
- Mynd y Tu Hwnt i'r Disgwyliadau ar X% (Sefyllfa gydymffurfiol)

Mae'r setiau cwestiynau yn seiliedig ar fframwaith atebolrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac wedi'u datblygu ar gyfer Sefydliadau GIG Cymru. Mae Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru yn rhedeg ar y cyd â'r flwyddyn ariannol ac mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu ffurflen yn flynyddol a disgwylir iddynt fodloni'r sefyllfa gydymffurfiol o Ddisgwyliadau Lleiaf wedi'u Bodloni neu uwch. Bydd hyn yn galluogi sefydliadau i ddangos y gellir ymddiried ynddynt i gynnal cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth bersonol a busnes. Bydd hyn yn rhoi sicrwydd i staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau bod eu gwybodaeth yn cael ei phrosesu'n ddiogel ac yn briodol, gan roi hyder i sefydliadau eraill lle mae rhannu'n digwydd bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth priodol ar waith.

Adran 9: Rheoli Cofnodion

Rhaid i sefydliadau gael polisïau lleol ar waith sy'n nodi dull y sefydliad o reoli cofnodion corfforaethol ac iechyd, a rhaid iddynt gyd-fynd â Chod Ymarfer Rheoli Cofnodion ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022.

Gweler Atodiad 1 - J am ragor o wybodaeth.

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 13 o 15

Adran 10: Parhad Busnes

Mae'n ofynnol i sefydliadau gael prosesau parhad busnes lleol ar waith rhag ofn y bydd amgylchiadau annisgwyl a fyddai fel arall yn peryglu argaeledd cofnodion iechyd electronig cenedlaethol a rennir.

Adran 11: Rheoli Polisiâu, Digwyddiadau a Chwynion

11.1 Polisiâu, gweithdrefnau ac adrodd ar ddigwyddiadau

Mae gan Fwrdd (neu gyfwerth) pob sefydliad gyfrifoldeb cyffredinol am gydymffurfiaeth â Llywodraethu Gwybodaeth. Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod:

- y darpariaethau o fewn y Safon Rheoli hon wedi'u mabwysiadu;
- yr holl weithdrefnau sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r Safon Rheoli hon yn cael eu creu a'u gweithredu;
- Polisiâu a gweithdrefnau a gytunwyd yn genedlaethol, a gytunwyd yn y Cyfarfod Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth Grŵp Cyngori yn cael eu gweithredu o fewn eu sefydliad;
- Mae gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau.
Gweler Atodiad 1 - K am ragor o wybodaeth.

11.2 Cwynion a Digwyddiadau

Bydd gan bob sefydliad weithdrefn ffurfiol lle gall defnyddwyr gwasanaethau, sefydliadau ac ymarferwyr sy'n ddarostyngedig i'r Safon Rheoli hon gyfeirio unrhyw gwynion ynghylch rhannu cofnodion iechyd fel y disgrifir yn y safon hon.

Dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn cydweithio pan roddir gwybod iddynt am gwyn neu ddigwyddiad a allai effeithio ar neu ymestyn ar draws sefydliadau neu wasanaethau. Lle bo angen, dylai sefydliadau gydweithio i gynnal unrhyw ymchwiliadau.

Gweler Atodiad 1 - K am ragor o wybodaeth.

Adran 12: Portffolio Gwasanaeth

Mae'r Portffolio Gwasanaeth yn nodi'r systemau cenedlaethol craidd sy'n dal cofnodion iechyd a gofal electronig a rennir. Iechyd a Gofal Digidol Cymru sy'n cynnal y portffolio hwn. Mae'r systemau a ddogfennir yn y Portffolio Gwasanaeth yn ddarostyngedig i'r egwyddorion a amlinellir yn y Safon Rheoli.

Safon Rheoli Cymru ar gyfer Cofnodion Iechyd a Gofal Electronig



Mae gwybodaeth y Portffolio Gwasanaeth yn egluro i sefydliadau fod pob trefniant rhannu yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Nid yw cynnwys system yn y Portffolio Gwasanaeth nac ymuno â'r Safon Rheoli yn golygu y bydd pob sefydliad yn cael mynediad awtomatig i'r system honno.

Adran 13: Cofrestru

Bydd rhestr o sefydliadau sydd wedi cofrestru ar gyfer y safon rheoli yn cael ei chynnal gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru a gellir ei darparu ar gais. Mae manylion ynghylch sut i gofrestru ar gael ar wefan GIG Cymru.

- MEWNOL -

OS YW'R DDOGFEN HON YN CAEL EI HARGRAFFU, DAIFF Y DDOGFEN HON YN DDOGFEN NA ELLIR EI RHEOLI

Tudalen 15 o 15